

<b>Ymyrraeth</b>	<b>Cynnig Casnewydd</b>			<b>Gwyrdd</b>	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd
				<b>Melyn</b>	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd
<b>Yn Arwain</b>	Y Cynghorydd Jane Mudd a Steve Ward	<b>Cyfnod Adrodd</b>	Chwarter 2 2021-22	<b>Coch</b>	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed
<b>Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau</b>				<b>Mesuriadau Perfformiad Allweddol Targed Gwirioneddol CMG</b>	
Caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo ar gyfer canolfan hamdden a lles newydd yng nghanol y ddinas sy'n darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar lan yr afon.				Dangosyddion perfformiad newydd i'w datblygu	
<p>Mae Uwchgynllun Canol y Ddinas yn parhau i wneud cynnydd ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adnewyddu Marchnad Casnewydd fel marchnad draddodiadol ochr yn ochr â gofod swyddfa hyblyg.</li> <li>• Adnewyddu Arcêd y Farchnad.</li> <li>• Creu swyddfeydd manyleb uchel newydd yn Mill Street.</li> <li>• Cadarnhau'r telerau gyda Tramshed Tech i ddarparu lle i fusnesau newydd yn y sectorau digidol, technoleg a chreadigol yn yr hen orsaf reilffordd</li> <li>• Ailddatblygu Tŷ Olympia yn gartrefi rhanberchnogaeth</li> <li>• Creu cartrefi newydd yn Castle View a Upper Dock Street</li> </ul>				<b>Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol</b>	
Grŵp Canol Dinas Diogelach yn mynd i'r afael â'r prif risgiau yng nghanol y ddinas - ymddygiad gwrthgymdeithasol, cardota ymosodol, plant ac alcohol, delio cyffuriau, meddwi, safleoedd problemus, teithio diogel, yfed ar y stryd, ymddygiad treisgar, gwastraff a phentyrru, a chanfyddiad.				<p>Agor Marchnad Casnewydd ac Arcêd y Farchnad ar eu newydd wedd. Dechrau'r gwaith ar y bont droed teithio llesol dros y rheilffordd sy'n cysylltu Mill Street â Chanol y Ddinas.</p> <p>Agor gwesty newydd y Mercure yn Nhŵr y Siartwyr.</p>	
Roedd ymgyrch hybu twristiaeth yn cynnwys ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ranbarthol, gweminar ar-lein ar gyfer y diwydiant teithio, dosbarthu taflenni wedi'u targedu i safleoedd o fewn taith yrru dwy awr i Gasnewydd a gweithio gyda Croeso Cymru i hyrwyddo cyrchfannau allweddol. Cafodd y Canllaw i Gasnewydd ei lawrlwytho dros 5,000 o weithiau yn y DU mewn ychydig fisoedd.				Cynnal Marathon a ras 10K ABP Casnewydd Cymru. Bydd darllediadau rhagorol ar y teledu a'r cyfryngau yn rhoi hwb i ddelwedd y Ddinas. Gwariant posibl o £1 miliwn a mwy o ran yr economi leol.	
Arian wedi'i sicrhau gan Sefydliad Wolfson i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Pont Gludo Casnewydd yn atyniad twristaidd mawr (ar ben cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri, CDC a Llywodraeth Cymru).				Baner Borffor - Bydd Cyngor Dinas Casnewydd a Newport NOW yn gwneud cais i adnewyddu'r achrediad cyn diwedd y flwyddyn ariannol.	
Bydd gwefan Dinas Casnewydd newydd yn darparu pwynt cyswllt cyntaf i'r rhai sy'n dymuno buddsoddi, ymweld neu geisio cymorth busnes.				Ailddechrau arolygon canfyddiad cyhoeddus i osod llinell sylfaen ar gyfer gwaith Cynnig Casnewydd.	
				Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ymgynghori ar ei gynllun newid yn yr hinsawdd, gan gydweithio â phartneriaid a chymunedau i leihau allyriadau carbon ledled y ddinas. Is-grŵp Newid yn yr Hinsawdd a sefydlwyd o dan Gynnig Casnewydd i gydlynu gweithgareddau'r bartneriaeth.	
<b>Prif Risgiau / Rhwystrau i gynydd</b>				<b>Statws (U/C/I)</b>	<b>Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen</b>
Cylch gwaith grwpiau sy'n cyfrannu at ddatblygu dinasoedd yn gorgyffwrdd a diffyg eglurder ynghylch rolau.				C	Mapio a rhesymoli grwpiau rhanddeiliaid i egluro rolau.